# Ysgol Gymraeg Dewi Sant
# Adroddiad Blynyddol
# y Llywodraethwyr at y Rhieni

**“**Tyfu a Llwyddo Gyda’n Gilydd”

Hydref 2024

**Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr 2023 -24**
**CYNNWYS**


1. Cyflwyniad
2. Cefndir yr Ysgol
3. Cynllun Gwella'r Ysgol (CGY)
4. Rhestr o Lywodraethwyr 2023-2024
5. Trefniant Staffio a chyfrifoldebau 2023-2024
6. Staffio a Datblygiad Staff 2023-2024
7. Cwricwlwm, Asesu ac Adnoddau
8. Gweithgareddau Ychwanegol
9. Darpariaeth Anghenion Ychwanegol
10. Iechyd a Diogelwch
11. Diogelu ac Amddiffyn Plant
12. Gweithgareddau Chwaraeon a Chysylltiadau a'r Gymuned
13. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
14. Presenoldeb a Phrydlondeb
15. Data Crynodol Diwedd Cyfnod
16. Cyllid 2023-2024
17. Diweddglo

Atodiad I Dyddiadau Gwyliau 2024-25 a 2025-26

Atodiad II Adroddiad Cyfrif Cronfa'r Ysgol 2023-2024

Atodiad III Adroddiad Allbwn ar gyfer Cyllid 2023-2024

## 1.0 Cyflwyniad

Mae Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg ac mae'r adroddiad blynyddol hon yn rhoi trosolwg o'r safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn ystod 2023-24.

Mae'r Corff Llywodraethol yn cwblhau eu cyfrifoldebau cyfreithiol, yn gosod nod ac amcanion yr ysgol ac yn gweithredu polisïau a thargedau ar gyfer eu cyflawni. Maent hefyd yn gyfrifol am adolygu a monitro, er mwyn sicrhau fod yr amcanion wedi eu cwblhau. Mae'n derbyn gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'w rôl ac mae'r wybodaeth sydd yn gynwysedig yn yr adroddiad hwn yn cyfateb ag anghenion Llywodraeth Cymru 2013.

Er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol mae cyfarfod o gorff llawn y llywodraethwyr yn cael ei gynnal o leiaf unwaith bob tymor, lle mae cyfle i drafod adroddiad ysgrifenedig y pennaeth sydd yn trafod deilliannau disgyblion, y nifer o ddisgyblion, staffio, cyllid, trefniadau cwricwlwm, anghenion arbennig, iechyd a diogelwch a chynnal a chadw'r safle. Yn ogystal mae is-bwyllgorau: Cyllid, Iechyd a Diogelwch a Chwricwlwm yn cael eu cynnal yn yr wythnosau cyn pob cyfarfod llawn ac mae adroddiadau yn cael eu cynhyrchu ar gyfer pob llywodraethwr.

## 2.0 Cefndir yr ysgol

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Dewi Sant yn 2011 i ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac ym mis Medi 2015 fe agorwyd ein hadeilad newydd sbon. Rydym yn dysgu'r disgyblion i siarad, darllen, ysgrifennu yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen (rhwng 3-7 oed) ac yng Nghyfnod Allweddol 2 (rhwng 7-11 oed) rydym yn dysgu sgiliau llythrennedd trwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Roedd 34 o ddisgyblion yn y Feithrin erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Croesawyd 191 o blant amser llawn i'r ysgol. Daeth 3 plentyn o aelwyd Gymreig gyda 15% o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle mae 1 rhiant yn medru siarad Cymraeg.

Mae maint dosbarthiadau yn cynyddu gyda bron pob dosbarth yn cyrraedd eu capasiti o 30 o fewn y Cyfnod Sylfaen. Yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd blwyddyn 3 dros ei chapasiti ar 31, blwyddyn 4 ar 30 a blynyddoedd 5 a 6 gyda 22 o ddisgyblion yr un.

## 3.0 Cynllun Gwella'r Ysgol (CGY)

Seiliwyd CGY 2023-24 ar werthusiad o'r flwyddyn flaenorol. Ei bwrpas oedd parhau i wreiddio argymhellion o'r adroddiad hunan arfarnu, sicrhau fod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn derbyn sylw a pharhau i godi safonau.

**Yn 2023-2024 gosodwyd y targedau canlynol:**

- Parhau i godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn darllen a llafaredd ar draws yr ysgol.
- Parhau i gyflwyno, gwreiddio a mireinio egwyddorion ac addysgeg Cwricwlwm i Gymru.
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer ACRh fel ein bod yn bodloni'r gofynion gorfodol ac anghenion pob dysgwr.
- Asesu – Mireinio prosesau asesu/prosesau tracio cyrhaeddiad.
- Lles – Parhau i weithio tuag at dargedau'r ysgol tra'n ystyried gofynion Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol.

Roedd pob argymhelliad wedi eu monitro gan yr Uwch Dîm Rheoli, llywodraethwyr, a'r Partner Gwella.

## 4.0 Rhestr Llywodraethwyr 2023-2024

| Enw | Rôl | Math o Lywodraethwr | Gorffen |
|---|---|---|---|
| Mrs V. Slater | • Cadeirydd y Llywodraethwyr<br>• Pwyllgor Cyllid a Phersonél<br>• Pwyllgor Rheoli Perfformiad | Rhiant Lywodraethwr | 5/10/2027 |
| Mr D. Beyers | • Pwyllgor Cyllid a Phersonél<br>• Cadeirydd Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch<br>• Pwyllgor Apeliadau Disgyblu a Diswyddo | Llywodraethwr y Gymuned | Wedi dod i ben |
| Mrs Y. Scott | • Pwyllgor Cwricwlwm<br>• Pwyllgor Rheoli Perfformiad<br>• Llywodraethwr Gosod Targedau<br>• Llywodraethwr Siarter Iaith<br>• Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff<br>• Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a Gwaharddiadau.<br>• Llywodraethwr Presenoldeb | Llywodraethwr y Gymuned | 1/1/2028 |
| Cynghorydd G Wilkie | • Pwyllgor Cyllid a Phersonél<br>• Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch | Llywodraethwr AALl | 6/10/2026 |
| Mr D Powell | • Pwyllgor Cyllid a Phersonél<br>• Pwyllgor Rheoli Perfformiad<br>• Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch<br>• Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff | Llywodraethwr AALl | 25/4/2026 |
| Mrs H. Scully | • Pwyllgor Cyllid a Phersonél<br>• Pwyllgor Cwricwlwm<br>• Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch | Pennaeth | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Miss R. Samuel | • Pwyllgor Cwricwlwm | Cynrychiolydd Staff | 1/1/2028 |
| Mr M. Edwards | • Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch<br>• Llywodraethwr Eco Ysgolion | Cynrychiolydd Staff Cynorthwyol | 15/5/2026 |
| Dr N. Patterson | • Is-gadeirydd y Llywodraethwyr<br>• Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch<br>• Pwyllgor Cwricwlwm | Rhiant Lywodraethwr | 28/1/2028 |
| Dr C. Howard | • Pwyllgor Cyllid a Phersonél<br>• Pwyllgor Cwricwlwm<br>• Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff<br>• Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a Gwaharddiadau.<br>• Llywodraethwr ADY/Amrywiaeth | Llywodraethwr y Gymuned | 15/9/2028 |
| Mr J. Allers | • Pwyllgor Cwricwlwm<br>• Llywodraethwr Cyfnod Dysgu Sylfaen<br>• Pwyllgor Cwynion | Rhiant Lywodraethwr | 12/10/25 |
| Mr M. Narusberg | • Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch<br>• Pwyllgor Cwynion<br>• Pwyllgor Disgyblu Disgyblion a Gwaharddiadau.<br>• Llywodraethwr Diogelu Plant | Llywodraethwr AALl | 27/9/25 |
| Cynghorydd Gerwyn Thomas | • Pwyllgor Safle, Iechyd a Diogelwch<br>• Pwyllgor Cwynion<br>• Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff<br>• Pwyllgor Cwricwlwm<br>• Llywodraethwr y Cyngor Ysgol | Llywodraethwr MAR | 30/5/26 |
| Mrs N Bainbridge | • Pwyllgor Cwricwlwm | Rhiant Lywodraethwr | 5/10/27 |

Ms Rachel Cox yw Clerc y Corff Llywodraethol a gellir cysylltu â hi yn Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri.

### 5.0 Trefniant Staffio a Chyfrifoldebau 2023-2024

| Enw | Cyfrifoldebau | Dosbarth / Oed y Plant | Cymorthyddion |
|---|---|---|---|
| Pennaeth:<br>Mrs. H. Scully | Safonau Dysgu ac Addysgu<br>Iechyd a Diogelwch<br>Rheolwr y Safle<br>Arweinydd Amddiffyn Plant<br>Rheolwr y Cyllid<br>Arweinydd Rheoli Perfformiad<br>Datblygiad Proffesiynol Parhaus | | |
| Dirprwy Bennaeth<br>Miss Rh. Samuel | ALNCo<br>Asesu a Thracio Cynnydd<br>Arweinydd Cwricwlwm i Gymru<br>Arweinydd Rheoli Perfformiad<br>Dirprwy Arweinydd Amddiffyn Plant | Di-gyswllt<br>(3 diwrnod)<br>Dysgu Blwyddyn 3<br>(2 diwrnod) | |
| Mr G Jones<br>Arweinydd CA2 | Cydlynydd Iaith a Llythrennedd<br>(Saesneg a Chymraeg)<br>Arweinydd Y Senedd<br>(Cyngor Ysgol)<br>Arweinydd Rheoli Perfformiad<br>Dirprwy Arweinydd Amddiffyn Plant | Dosbarth Helygen<br>Blwyddyn 4 | Miss C Long (1:1) |
| Mrs. B Roberts<br>Arweinydd y Cyfnod Sylfaen | Cydlynydd Mathemateg a Rhifedd.<br>Arweinydd y Dreigiau/Siarter Iaith<br>Arweinydd Rheoli Perfformiad Staff Cynorthwyol | Dosbarth Castan<br>Blwyddyn 2 | Miss Thomas |
| Miss M. Davies | Cydlynydd Iechyd a Lles<br>Cydlynydd ELSA | Dosbarth Derwen<br>Meithrin | Miss Enos, Miss Williams a Mrs Carlig |
| Miss E Jones | Cydlynydd Celfyddydau Mynegiannol<br>Cydlynydd y Cyngor Eco<br>(Yn absenoldeb Mrs Phillips – Cyfnod Mamolaeth) | Dosbarth Onnen<br>Derbyn | Miss Dalton |
| Mrs R. Phillips/Miss S Noon-Jones (Cyfnod Mamolaeth) | Cydlynydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>Arweinydd y Pwyllgor Eco | Dosbarth Collen<br>Blwyddyn 1 | Mrs S Morris/Miss Turnbull |
| Mrs R Murphy | Arweinydd Iechyd a Lles<br>Arweinydd y Pwyllgor Iechyd | Dosbarth Bedwen<br>Blwyddyn 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mr S Howe | Cydlynydd TGCh a Chymhwysedd Digidol<br>Arweinydd Dewiniaid Digidol | Dosbarth Helygen<br>Blwyddyn 6 | |
| Miss M Evans | Arweinydd y Dyniaethau | Dosbarth Ffawydden<br>Blwyddyn 5 | |
| Mr R Jones | Dirprwy Arweinydd Digidol | Athro CPA | |

Mae Miss Cichocki a Mrs Harries Roberts yn cefnogi dosbarthiadau CA2.

Swyddogion Gweinyddu — Mrs. D Daw

Staff y Gegin — Gwasanaeth Arlwyo Bro Morgannwg 'The Big Fresh'

Clwb Brecwast — Miss S. Cichocki
Mrs. T. Edwards
Miss C Long
Mr M Edwards
Miss C Thomas
Miss V Dalton

Clwb y Ddraig — Miss C Thomas
Miss V Dalton
Miss S Cichocki
Miss C Long

Gofalwr — Mr. M. Edwards

Nyrs yr Ysgol — Emma Powell

**6.0 Staffio a Datblygiad Staff 2023-24**

Yn ystod 2023 -24, ymddiswyddodd Mrs Catherine Sellwood, athrawes Dosbarth Derbyn i ddilyn rôl newydd mewn ysgol yng Nghaerdydd. Croesawyd Miss Ellie Jones i'r ysgol fel athrawes y Dosbarth Derbyn. Croesawyd Miss Codie Enos hefyd fel Cymhorthydd Dysgu parhaol yn cefnogi disgyblion Meithrin ac ar draws Cyfnod Allweddol 2. Cyflogwyd Miss Noon-Jones dros dro fel athrawes dosbarth blwyddyn 1 dros gyfnod mamolaeth Mrs Rachel Phillips. Yn nhymor yr haf, bu Mr Ellis Walker a Mr Tomos Griffiths hefyd yn cefnogi disgyblion Blwyddyn 1 a blwyddyn 3

dros dro. Gwnaethom ffarwelio â Miss Hollie Rattenbury, Cymhorthydd Dysgu a Mrs Sian Morris, Cymhorthydd Dysgu a ymddeolodd ym mis Rhagfyr 2023.

Roedd hyfforddiant staff yn gysylltiedig â chodi safonau ac yn canolbwyntio ar y pynciau craidd, agweddau o'r Cynllun Gwella Ysgol, targedau personol a mentrau AALl/Llywodraeth Cymru.

**7.0 Cwricwlwm, Asesu ac Adnoddau**

Bu pwyslais parhaus ar ddatblygu darllen Cymraeg disgyblion yn ystod y flwyddyn oherwydd effaith barhaus pandemig Covid-19. Gweithredwyd ymyraethau ar draws yr ysgol i godi safonau ac oedran darllen cronolegol y disgyblion. Parhaodd partneriaid darllen i ddarllen gyda disgyblion a derbyniodd staff hyfforddiant pellach i ddatblygu gweithgareddau darllen o fewn y dosbarth. Parhaodd yr ysgol i godi proffil a phwysigrwydd darllen drwy annog cyfranogiad rhieni a'r defnydd o adnoddau darllen sydd ar gael yn ddigidol i ddisgyblion a rhieni eu defnyddio yn y cartref e.e. Adnodd digidol 'Darllen gyda Dewi' a chrewyd gan yr ysgol.

Ailddechreuodd y gwaith o ddatblygu Cwricwlwm i Gymru. Parhaodd y staff addysgu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ofynion y cwricwlwm newydd a mynychu hyfforddiant ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Parhaodd y gwaith o fapio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad gyda ffocws penodol ar y Dyniaethau ac Addysg Cydberthnasedd a Rhywioldeb.

Cynhaliodd y Pennaeth, y Tîm Arweinyddiaeth, a'r Partner Dysgu deithiau dysgu a chraffu ar lyfrau ochr yn ochr â staff i adolygu ac arfarnu safonau ar draws yr ysgol.

Rhoddwyd pwyslais ar olrhain cynnydd yn fewnol er mwyn monitro cysondeb a dilyniant o fewn sgiliau, cyflawniad gwerth ychwanegol a mesur cyrhaeddiad.

Cynhaliwyd arolygiad gan Estyn yn Ionawr 2023. Nododd yr adroddiad arolygu fod yr ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch yn dda ac yn darparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth effeithiol y dirprwy bennaeth, yn darparu arweinyddiaeth glir sy'n cyfrannu at addysg gyflawn i ddisgyblion. Mae staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal a lles o ansawdd uchel i ddisgyblion ar draws yr ysgol mewn amgylchedd dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn cael dylanwad cryf ar agweddau disgyblion tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae balchder y disgyblion yn eu hardal leol a Chymru yn gryfder amlwg.

Roedd dau argymhelliad yn dilyn yr arolygiad:

R1. Sicrhau her briodol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu sgiliau annibynnol gweithgareddau dysgu.

R2. Lledaenu'r arferion addysgu cryfaf ar draws yr ysgol.

Cliciwch ar y ddolen isod am yr adroddiad llawn:
..\..\..\Estyn\Adroddiad\Adroddiad arolygiad Ysgol Gymraeg Dewi Sant 2024.pdf

## 8.0 Gweithgareddau ychwanegol

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Sesiynau gyda PC Davies (Cyfnod Allweddol 2)
- Preswyl Glan-llyn (Blwyddyn 6)
- Prosiect Criced gyda Chlwb Criced Morgannwg (Blwyddyn 5)
- Preswyl Llangrannog (Blwyddyn 5)
- Wythnos Beicio i'r Ysgol
- Sesiwn blasu pêl-droed i ferched gyda Chlwb Pêl-droed Llanilltud Fawr
- Prynhawn Coffi Macmillan
- Gweithdai 'Bwlïo Allan' (Cyfnod Allweddol 2)
- Cystadleuaeth CogUrdd (Disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6)
- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon – Disgo Calan Gaeaf
- Noson Ffilm y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (Derbyn – Blwyddyn 6)
- Crefft Cyrb ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2
- Sioe Buddug -Mewn Cymeriad (Blwyddyn 3)
- Gweithdy 'Cnau'r Coed' (Blwyddyn 3)
- Plant Mewn Angen – Gwisgwch Pyjamas i'r ysgol
- Diwrnod Siwmper Nadolig a Chinio Nadolig
- Sioe Nadolig 'Babis Bach' (Cylch Meithrin a Meithrin)
- Sioe Nadolig yn y Barri Memo (Derbyn, Blwyddyn 1 a 2)
- Ffair Nadolig y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon
- Gweithdy Gwersylloedd Techno (Blwyddyn 5)
- Disgo CRhA Santes Dwynwen
- Cystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd (Bl 5 & 6)
- Amser Stori yn Llyfrgell Llanilltud Fawr
- Eisteddfod yr Ysgol/Eisteddfod yr Urdd
- Ymweliad â'r ardal leol (Blwyddyn 1)
- Gweithdy Theatr ar gyfer y Derbyn (Blynyddoedd 1 a 2)
- Gorymdaith Hetiau Pasg y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a Chystadleuaeth Pobi
- Prosiect Celfyddydau Mynegiannol gyda Choleg Iwerydd ar gyfer disgyblion Bl 5 a 6
- Cystadleuaeth Rygbi'r Urdd
- Twrnamaint Criced (Blwyddyn 5)
- Cynulliad a Gweithdy Tîm Cymru
- Gŵyl Rygbi TAG yng Nghlwb Rygbi Llanilltud Fawr (Blynyddoedd 5 a 6)
- Ymweliad meithrinfa â'r llyfrgell (Menter Bro Morgannwg)
- Diwrnod Seren a Sbarc
- Gwŷl Fach y Fro – holl ddisgyblion yn cael eu gwahodd i berfformio
- Taith Gerdded Dysgu Llywodraethwyr
- Gweithdai Maint Cymru (Cyfnod Allweddol 2)
- Ymweliad Theatr 'Gwlad y Rwla' (Derbyn, Bl 1 a 2)

- Prosiect Dathlu Gwnïo (Dosbarth Meithrin)

## 9.0 Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae Côd Ymddygiad Anghenion Arbennig Cymru 2002, yn darparu dangosyddion sy’n clustnodi disgyblion ar gyfer anghenion arbennig. Mae hefyd yn darparu arweinyddiaeth ar bolisïau a gweithdrefnau sy’n galluogi disgyblion ag anghenion addysgiadol arbennig i gyrraedd eu potensial llawn, er mwyn cael eu cynnwys o fewn i gymuned yr ysgol.

Mae’r Bil ADY ar waith ac rydym yn gweithio’n agos gydag ysgolion yn y Fro i gydymffurfio a rhannu arfer da. Fel rhan o’r broses hon, mae disgyblion yn creu ei cynllun person-ganolog (PCP) gyda chymorth yr ALNCo er mwyn sicrhau bod eu hanghenion a’u llais yn ganolog i’r ymyraethau a’r gefnogaeth a dderbynnir.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw:

- Adnabod plant sydd yn profi anawsterau sydd yn sylweddol uwch na’r rhai a brofwyd gan y mwyafrif o blant.
- Darparu adnoddau priodol er mwyn cefnogi anghenion ADY.
- Adnabod plant mwy abl a thalentog ac i ddarparu gwaith gwahaniaethol sydd yn heriol ar eu cyfer.
- Mabwysiadu strategaethau dysgu ac addysgu priodol a chynnig cwricwlwm amrywiol sydd yn gwneud bywyd ysgol yn addas at bob disgybl.

Fel rhan o bolisi’r ysgol, cydnabyddir mai cyfrifoldeb yr athro dosbarth yw adnabod anghenion y plant. Mae’r ysgol yn annog rhieni i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda’r athro dosbarth yn y lle cyntaf ac i gysylltu â’r ysgol er mwyn trefnu apwyntiadau eraill os oes angen. Mae’r nosweithiau rhieni ac athrawon hefyd yn ddelfrydol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb ar gyfer safonau dysgu ac addysgu ynghyd â’r ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn.

Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb am ddisgyblion ‘dan ofal’ ac sydd yn cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ADY. Mae’r arwyddion anghenion addysgiadol ychwanegol yn olrhain darpariaeth pob plentyn ar gyfer anghenion arbennig h.y. y sawl sydd ag anawsterau penodol neu gyffredinol emosiynol, ymddygiad neu feddygol.

Ceir trafodaeth reolaidd, ynglŷn ag unrhyw ddisgyblion sy’n achosi pryder gydag unrhyw unigolyn sy’n profi anawsterau yn derbyn cymorth ychwanegol o fewn yr ysgol neu drwy ddefnyddio asiantau allanol.

Y llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb am Anghenion Arbennig ar gyfer 2023-24 oedd Dr. C Howard.

Ar gyfer 2023-24, roedd gan 11 disgybl (5%) Gynllun Datblygu Unigol. Cafodd 24 o ddisgyblion (10%) eu cydnabod fel Gweithredu gan yr Ysgol ag arweiniodd at gynllun cymorth a rannwyd gyda rhieni.

## 10.0 Iechyd a Diogelwch

Mae'r Corff Llywodraethol yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau wrth hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach fel rhan o Safonau ac Anghenion Rheolau Maeth 2013 ac yn sicrhau fod pob un o'r bwydydd a'r diodydd a ddarperir gan yr ysgol yn ystod y dydd yn cyfateb â Rheolau Bwyta'n Iach 2009. Mae'r Pwyllgor Iechyd yn gofalu am rannu negeseuon bwyta'n iach ac yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod mis Mai 2024, cafodd yr ysgol ei harchwilio gan Adran Iechyd a Diogelwch Bro Morgannwg. Mae'r awdit blynyddol yn arolygiad trylwyr o holl agweddau Iechyd a Diogelwch ar draws yr ysgol a safle'r ysgol. Graddiwyd sgôr risg yr ysgol yn isel ac ar gyfer cydymffurfio, roedd y risg yn isel iawn.

Yn ystod 2023-24, daeth safle'r ysgol yn safle di-gar gyda dim ond staff a'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion e.e. athrawon peripatetig, y caniateir iddynt yrru ar safle'r ysgol. Gofynnir i'r holl staff sy'n parcio ar dir yr ysgol/maes parcio'r staff facio i mewn i le parcio i sicrhau bod llwybr gweledol clir wrth adael.

Mewn ymateb i faterion Iechyd a Diogelwch ac asesiadau risg mae'r trefniadau hyn wedi eu rhoi mewn lle:

- Pob cerbyd i wrth-droi i mewn i'r safleoedd penodedig ar gyfer rhieni ac ymwelwyr.
- Dylid parcio yn y maes parcio neu yn y man gollwng yn unig (**ac nid yn yr arosfan tacsi/bysiau).**
- Ni chaniateir mynedfa i'r safle i gerbydau preifat heblaw am geir y staff neu faniau nwyddau hanfodol.
- Dylai'r rhieni sy'n gollwng eu plant yn y clwb brecwast gofio i gerdded gyda'r plant i fynedfa'r ysgol**.**

Mae'r Pennaeth, y gofalwr ac Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn ogystal ag Awdurdod Addysg Leol (AALl) yn cwblhau archwiliadau cyson er mwyn sicrhau fod yr elfen o risg yn cael ei leihau.

Mae'r cyfartaledd o doiledau i ddisgyblion yn cyfateb â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru gyda phob tŷ bach yn cael ei lanhau o leiaf unwaith bob diwrnod.

**11.0 Diogelu Plant**

Er mwyn sicrhau diogelwch gofynnir yn garedig i rieni ddefnyddio'r brif fynedfa ar bob adeg. Os oes angen siarad ag aelod o staff gofynnir i rieni trefnu apwyntiad o flaen llaw.

Mae'r ysgol yn dilyn polisi "Recriwtio Diogel" yr awdurdod ac mae pob aelod o staff wedi derbyn gwiriad manwl DBS. Rhaid i bob un sydd yn gwirfoddoli o fewn yr ysgol dderbyn gwiriad DBS hefyd ac mae pob ymweliad yn derbyn asesiad risg.

- Mae clwydi'r maes chwarae yn cael eu cloi am 9.15yb ac yn ail agor am 3.25yp. Yn y bore rhaid i rhieni sydd yn hwyr, ddefnyddio'r brif fynedfa ac arwyddo'i plentyn mewn.

- Staff yr ysgol sydd yn gyfrifol am ddiogelwch pob plentyn ac felly mae'n hanfodol i sicrhau fod trefniadau casglu ar ddiwedd y dydd yn gyfarwydd i ni. Dylai unrhyw newidiadau gael eu cyfleu i'r staff drwy neges ffôn neu lythyr/e-bost. **Ni fydd plentyn yn cael mynd adref gydag oedolyn sydd ddim yn adnabyddus i staff yr ysgol**. Mi fydd unrhyw blentyn sydd heb eu casglu yn aros tu allan i swyddfa'r pennaeth wrth i aelod o staff geisio cysylltu â rhiant/ warcheidwad.

- Ni ddarperir moddion gan aelod o staff oni bai fod gennym ganiatâd ysgrifenedig rhiant/warcheidwad ar y ffurflen briodol.

- Mae pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu plant yn flynyddol a chymorth cyntaf rheolaidd pob tair blynedd.

- Y Pennaeth, Mrs. H Scully sy'n gyfrifol am ddiogelu plant a hi yw Person Diogelu Dynodedig yr Ysgol. Mae'r Dirprwy Bennaeth, Miss. Rhian Samuel a Phennaeth CA2, Mr. Gareth Jones yn Ddirprwyon Diogelu Dynodedig yr ysgol ac yn gyfrifol yn absenoldeb y Pennaeth. Llywodraethwr yr ysgol sy'n gyfrifol am ddiogelu yw Mr. M Narusberg.

**12.0 Gweithgareddau Chwaraeon a Chysylltiadau a'r Gymuned**

Yn ystod y flwyddyn parhaodd yr ysgol i sefydlu ei hun o fewn y gymuned leol trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a dathliadau. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys cymryd rhan mewn gweithdai chwaraeon amrywiol a drefnwyd gan glybiau lleol, cymryd rhan yng Ngorymdaith Cofio y dref lle bu disgyblion a staff ac yn gosod torch ar ran yr ysgol wrth y senotaff.

Mae gan y Clwb Brecwast rhad ac am ddim dros 90 o ddisgyblion wedi'u cofrestru ac mae'n darparu brecwast yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Bwyta'n Iach. Yr uwch oruchwyliwr yw Miss Cichocki a chyflogir 7 aelod arall o staff fel goruchwylwyr yn y Clwb Brecwast. Mae Clwb y Ddraig, sef clwb goruchwylio plant ar agor am bedwar noson yr wythnos ac yn cael ei drefnu gan staff yr ysgol.

Mae Cylch Meithrin Llanilltud Fawr wedi'i leoli ar safle Ysgol Gymraeg Dewi Sant lle maent wedi'u lleoli mewn adeilad pwrpasol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth cofleidiol gyda'r Cylch wedi'i ddatblygu ymhellach lle mae disgyblion yn mynychu clwb brecwast yn y Cylch Meithrin ac yna'n cael eu hebrwng gan staff y Cylch i'r ysgol. Mae disgyblion meithrin y bore/prynhawn yn cael eu hebrwng i sesiynau gan staff y Cylch neu gan staff meithrin yr ysgol (yn ddibynnol ar sesiwn). Mae'r berthynas hon rhwng y Cylch a'r ysgol yn llwyddiannus iawn gyda disgyblion y Cylch yn mynychu digwyddiadau yn yr ysgol a gyda staff yn rhannu arfer dda.

Derbyniwyd disgyblion Meithrin newydd ar ddechrau pob tymor. Gwahoddwyd rhieni ac aelodau'r teulu i brynhawniau/nosweithiau agored a chynhaliwyd dwy noson ymgynghori rhieni yn ystod y flwyddyn i drafod cynnydd disgyblion.

Gweithredwyd trefniadau pontio newydd i sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer eu dosbarthiadau newydd ym mis Medi. Er bod pontio rhwng blwyddyn 6 a 7 wedi parhau i fod yn llwyddiannus iawn, teimlwyd y dylai pob disgybl gymryd rhan mewn gweithgareddau pontio. Ymwelodd staff meithrin â disgyblion newydd yn eu lleoliadau a threfnwyd cyfarfodydd rhwng rhieni a staff. Bu disgyblion meithrin i flwyddyn 5 yn cymryd rhan mewn diwrnod cyfan o weithgareddau pontio yn ystod tymor yr haf, gan gwrdd â'u hathro dosbarth newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn berthnasol i'w dosbarth newydd. Bu'r holl weithgareddau pontio yn llwyddiannus iawn gyda'r holl ddisgyblion yn elwa.

**13.0 Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymraeg Dewi Sant**

Cafodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon flwyddyn lwyddiannus unwaith eto. Fe drefnon nhw ddisgo Calan Gaeaf a Santes Dwynwen, arwerthiant cardiau Nadolig, Ffair Nadolig a Ffair Haf, noson ffilm, gorymdaith hetiau Pasg a chystadleuaeth pobi, stondinau Sul y Mamau a Sul y Tadau a'r ras amryliw. Roedd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hefyd yn darparu lluniaeth yn ystod pob mabolgampau i rieni. Rydym yn hynod ddiolchgar am waith caled ac ymroddiad y pwyllgor ac am eu syniadau dychmygus parhaus. Diolch yn fawr i'r tîm am barhau i sicrhau partneriaeth lwyddiannus iawn rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned ehangach.

**14.0 Presenoldeb a Phrydlondeb**

Yn ystod 2023-24, cafodd presenoldeb ysgol ei fonitro'n agos a gosodwyd targed o 95% o bresenoldeb gan yr AALl. Mabwysiadodd y Corff Llywodraethol bolisi lle na fyddai gwyliau a gymerir gan deuluoedd yn cael eu hawdurdodi yn ystod y tymor. O ganlyniad, rydym wedi gweld cynnydd yn yr absenoldebau anawdurdodedig.

Mae'n ofynnol i ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o bresenoldeb ac anogwyd teuluoedd i hysbysu'r ysgol os nad oedd eu plentyn yn gallu mynychu. Roedd angen eglurhad o'r absenoldeb at ddibenion monitro ac i alluogi'r ysgol i gofnodi presenoldeb yn gywir.

**Targed a osodwyd gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2023 - 2024 – 95%.**

**Presenoldeb ar gyfer 2023 – 2024 - 93.78%**
Presenoldeb ar gyfer 2022 – 2023 – 93.7%
Presenoldeb ar gyfer 2021 – 2022 - 92%
Presenoldeb ar gyfer 2020 – 2021 - 94.7%

Absenoldebau awdurdodedig – 4.51%
Absenoldeb heb awdurdod – 1.61%

Targed a osodwyd gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2024 - 2025 – 95%.

Mae Atodiad I yn dangos gwyliau ysgol ar gyfer 2024-2025/2025-2026

## 15.0 Data Crynodol Diwedd Cyfnod

Oherwydd y newid yng ngofynion Cwricwlwm i Gymru, nid yw bellach yn ofynnol i ysgolion fesur a chymharu cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Fodd bynnag, yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant mae prosesau asesu crynodol yn eu lle i fesur cyrhaeddiad mewn darllen, sillafu a mathemateg. Profir disgyblion yn ystod y flwyddyn i olrhain a mesur cyrhaeddiad yn y meysydd hyn. Mae hyn yn caniatáu a chefnogi'r ysgol wrth sicrhau y cyflawnir safonau. Mae disgyblion blynyddoedd 2 – 6 yn cwblhau Asesiadau Personol Llywodraeth Cymru yn flynyddol.

## 16.0 Cyllid 2023-2024

Mae dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wedi parhau i dyfu yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gorffennodd yr ysgol gyda gwarged o £70,000. Nodwyd bod cyllid yn cael effaith ar gyllidebau ysgolion a bod ysgolion yn wynebu diffyg yn eu cyllidebau.

Derbyniodd yr ysgol swm o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a ddefnyddiwyd i ariannu staff a chymorth targedig ar gyfer lles.

Ni thalwyd unrhyw lwfansau teithio na chynhaliaeth i unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol.

Dangosir y Cyfrif Cronfa Ysgol yn Atodiad II ac mae adroddiad Datganiad Alldro Ysgol yr ysgol am y flwyddyn 2023-24 wedi ei gynnwys yn Atodiad III.

## 17.0 Diweddglo

Mae blwyddyn ysgol lwyddiannus arall wedi hedfan heibio wrth i ni edrych yn ôl ar 12 mis gwych arall yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant.

Roedd y corff llywodraethol wrth eu bodd gyda'r adborth a dderbyniwyd gan Estyn yn dilyn eu harolygiad ysgol ym mis Ionawr. Cydnabuwyd gwaith caled ac angerdd y staff ynghyd â diwylliant meithringar yr ysgol gan y tîm arolygu. Fel llywodraethwyr rydym wedi trafod

argymhellion Estyn er mwyn sicrhau bod gan Mrs Scully a'i thîm yr adnoddau a'r gefnogaeth yn eu lle i'w cyflawni.

Unwaith eto, mae gostyngiadau yng nghyllidebau ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025 wedi achosi heriau sylweddol i ysgolion ar draws Bro Morgannwg. Mae rheolaeth ariannol dda o'r blynyddoedd blaenorol wedi rhoi'r ysgol mewn sefyllfa well na'r mwyafrif ac rydym wedi gallu, lle bo modd cyfyngu ar effaith hyn ar safonau ac addysgu'r plant. Serch hynny, mae angen llawer o greadigrwydd wrth edrych ar sut y gallwn gyflawni safonau uchel yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael.

Ar y nodyn hwn, rydym yn ddiolchgar am waith caled parhaus y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wrth ddarparu profiadau cymdeithasol i blant a'u teuluoedd wrth drefnu digwyddiadau dros y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r GRhA wedi ariannu gweithgareddau amrywiol sydd wedi galluogi'r disgyblion i dderbyn profiadau cyfoethog e.e. talu am fysiau ar gyfer tripiau, offer chwarae ac adnoddau. Heb yr arian yma ni fyddai'n bosib ariannu gweithgareddau i'r disgyblion ac yn rhwystr ychwanegol i gyllid yr ysgol.

Ar ran y corff llywodraethol hoffem ddiolch i Mrs Scully a'r holl staff am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nid yn unig yn eu hymrwymiad i'w gwaith beunyddiol, ond yn y gweithgareddau ychwanegol ac allgyrsiol y maent yn eu trefnu ac yn cefnogi ar gyfer y disgyblion. Diolch hefyd i holl rieni a gofalwyr y disgyblion am eu cefnogaeth barhaus, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bob un ohonom yn yr ysgol.

Mrs Victoria Slater
Cadeirydd y Llywodraethwyr (Ar ran y Corff Llywodraethol)

Yn ôl Deddf Threfniadau a Safonau Ysgolion 2013 nid oes rhaid i Gorff Llywodraethol gynnal gyfarfod rhieni blynyddol oni bai fod 10% o rhieni yn gofyn drwy ddeiseb.

**Atodiad I**
**DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL**

Ar gyfer dyddiadau gwyliau gweler y linc isod:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/School-Term-Dates.aspx#Term2023

**Atodiad II**

### SCHOOL PRIVATE FUND - CRONFA

### SUMMARY OF ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDING 31st AUGUST 2024

| Activity | Receipts | Payments |
|---|---|---|
| Fruit and trips | £4011.34 | £3298.68 |
| Donations | 1073.76 | 924.35 |
| School resources | | 635.00 |
| Subscriptions and training | | 120.00 |
| Sponsorship | 2924.30 | 1670.15 |
| Postage | | 12.54 |
| Other | 402.56 | 113.00 |
| **TOTAL** | **£8,411.96** | **£6773.72** |

| | |
|---|---|
| Opening balance in hand 1st September 2023 | £11,189.99 |
| ADD: receipts during year | £8,411.96 |
| Subtotal | £19,601.95 |
| | |
| LESS: Payments during the year | £6,788.22 |
| **Closing balance in hand 31st August 2024** | **£12,813.73** |

| | |
|---|---|
| Signed (Auditor) | Lisa Jones |
| Print Name | Lisa Jones |
| Date | 26.10.2024 |

**SCHOOL UNOFFICIAL/PRIVATE FUNDS**

**ANNUAL CERTIFCATE**

**PART 1:**

| | |
|---|---|
| School Name | Ysgol Gymraeg Dewi Sant |
| Title of Fund | Cronfa / School Fund |
| Bank | Lloyds Bank |
| Committee (e.g. Finance) | Finance |
| Chair | |
| Auditor | Lisa Jones |
| Date of Last Committee Meeting | |

Declaration

I certify that the above information is correct and that the private/unofficial fund has been administered in line with the specifications of the Fair Funding Scheme for Schools.

| | |
|---|---|
| Signed (Head teacher) | H Scully |
| Print Name | Helen Scully |
| Date | 15/11/24 |
| Signed (Chair of Governing Body) | [signature] |
| Print Name | Victoria Slater |
| Date | 13/11/24 |

**Part 2:**

**AUDITOR'S CERTIFICATE**

I have read the guidance within the Fair Funding Scheme for Schools with regards to private and unofficial funds. I certify that I have examined the books and records relating to this schools private/unofficial fund for the period from 1 September 2023 to 31 August 2024 and can confirm that the attached Summary of Accounts represents a true and fair view of the fund as at 31$^{st}$ August 2024.

I attach a copy of the School Private Funds auditor's checklist, and a Summary of Accounts

| | |
|---|---|
| Signed (Auditor) | Lisa A Jones |
| Print Name | Lisa Jones |
| Date | 26.10.2024 |

**Appendix III**

**Vale of Glamorgan Council Ysgol Dewi Sant Primary School Outturn Report 2023/24 Revenue Summary**

| COST CENTRE CODE | COST CENTRE DESCRIPTION | DETAIL | ANNUAL BUDGET | TOTAL ACTUAL |
|---|---|---|---|---|
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | CONT. TO FUNDS | 0.00 | 1,876.51 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | CONT TO CAPITAL OUTTURN | 0.00 | 1,876.51 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | EMPLOYEES | 990,773.00 | 1,014,374.02 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | TEACHING EMPLOYEES | 685,290.00 | 685,383.55 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | NON TEACHING EMPLOYEES | 147,915.00 | 164,258.04 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | GRANT EMPLOYEES | 157,568.00 | 164,732.43 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | INTERNAL RECHARGES EXPEND | 67,442.00 | 73,708.87 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | INTERNAL RECHARGES EXPEND | 67,442.00 | 73,708.87 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | PREMISES | 92,283.00 | 101,387.36 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | CLEANING AND DOMESTIC SUPPLIES | 21,500.00 | 24,110.26 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | ENERGY | 24,000.00 | 34,915.43 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | GROUNDS MAINTENANCE | 3,000.00 | 2,440.88 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | RATES | 28,623.00 | 28,623.00 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | RENTS | 1,000.00 | 0.00 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | REPAIRS & MAINT OF BUILDING | 11,160.00 | 8,367.75 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | WATER SERVICES | 3,000.00 | 2,930.04 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | SUPPLIES AND SERVICES | 76,399.00 | 41,221.73 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | COMMS AND COMPUTING | 9,105.00 | 8,605.52 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | EQUIP, FURNITURE & MATERIALS | 17,803.00 | 35,592.10 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | EXPENSES | 163.00 | -10,161.71 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | GRANTS & SUBSCRIPTIONS | 4,499.00 | 0.00 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | MISC EXPENSES | 34,919.00 | 1,341.64 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | PRINTING STATIONERY & OFFICE EXPS | 5,400.00 | 4,601.75 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | SERVICES | 4,510.00 | 1,242.43 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | TRANSPORT | 500.00 | 156.38 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | CAR ALLOWANCES | 500.00 | 156.38 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | CUSTOMER RECEIPTS | -5,000.00 | -40,319.05 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | CHARGE FOR SERVICE | 0.00 | -32,109.44 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | DONATIONS | 0.00 | -656.00 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | RENTAL INCOME | -5,000.00 | -5,350.00 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | SALE OF PRODUCTS | 0.00 | -2,203.61 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | GOVERNMENT GRANT | -169,099.00 | -182,995.24 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | OTHER GOVERNMENT GRANTS | -4,499.00 | -4,498.50 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | WG GRANTS | -164,600.00 | -178,496.74 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | INTERNAL RECHARGES INCOME | -19,887.00 | -54,393.95 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | INTERNAL RECHARGES INCOME | -19,887.00 | -54,393.95 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | OTHER GRANTS | 0.00 | -9.60 |
| 101317 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | INCOME FROM OTHER LAs/HAs | 0.00 | -9.60 |
| | | Total 101317 | 1,033,411.00 | 955,007.03 |